Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru

Medi 2020

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru

Medi 2020

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AS**
LLafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AS**
Plaid Brexit

# Cynnwys

**Casgliadau ac Argymhellion....................5**

**1. Cefndir....................6**

**2. Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru....................7**

**3. Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru....................11**

**Atodiad: Hanes Gyrfa – Lindsay Foyster....................12**

# Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn penodi Elinor Gwynn yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Medi 2024. ................Tudalen 10

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn penodi Ian Rees yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 17 Hydref 2020 a 16 Hydref 2024. ................................Tudalen 10

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn penodi Alison Gerrard, i wasanaethu ail dymor yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 30 Mehefin 2025. ....................................................................Tudalen 10

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Senedd Cymru yn penodi Lindsay Foyster yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o blith yr Aelodau Anweithredol, rhwng 17 Hydref 2020 a 15 Mawrth 2023....................................... Tudalen 11

# 1. Cefndir

**1.** Ar 5 Mawrth 2013, pasiodd Senedd Cymru Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.

**2.** Mae'n werth nodi bod y Ddeddf yn rhoi sawl cyfrifoldeb i Senedd Cymru, gan gynnwys penodi pum Aelod Anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys y Cadeirydd). Mae Senedd Cymru hefyd yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth mewn cysylltiad â'r Aelodau Anweithredol.

**3.** Y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru. O dan Reolau Sefydlog 18.10(v), 18.10(vii) a 18.10(viii), mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau Senedd Cymru sy'n ymwneud â phenodi Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru (ac eithrio'r Cadeirydd), a phenderfynu'r telerau ar gyfer penodi'r Aelodau Anweithredol (gan gynnwys taliadau cydnabyddiaeth).

# 2. Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru

## Rôl y Pwyllgor Cyllid

**4.** Mae penodi Aelodau Anweithredol wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18.10(v). Fodd bynnag, y Senedd sy'n gyfrifol am benodi'r Cadeirydd o blith yr Aelodau Anweithredol.[1] Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10(iv), mae'r Pwyllgor yn argymell Aelod Anweithredol i Senedd Cymru ei benodi'n Gadeirydd.

**5.** Yn unol â'r Ddeddf, gellir penodi Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cadeirydd am dymor o hyd at bedair blynedd, a gallant wasanaethu am hyd at ddau dymor.[2]

## Aelodaeth Anweithredol bresennol

**6.** Daw ail dymor a thymor olaf swydd y Cadeirydd i ben ar 16 Hydref 2020, gan adael lle gwag ar gyfer Aelod Anweithredol a Chadeirydd newydd.

**7.** Mae un Aelod Anweithredol sy'n gwasanaethu wedi nodi ei fod am roi'r gorau i'w rôl cyn gynted â phosibl.

**8.** Mae Aelod Anweithredol arall yn cyrraedd diwedd ei dymor cyntaf yn y swydd ar 30 Mehefin 2021 ac, felly, gellir ei benodi i wasanaethu am ail dymor (yn amodol ar fodloni'r gofynion cymhwysedd yn y Ddeddf). O ystyried amseriad etholiad nesaf y Senedd ym mis Mai 2021, ceisiodd y Pwyllgor benodi Aelod Anweithredol ar gyfer y lle gwag hwn a fydd yn codi yn y dyfodol agos fel rhan o'r ymarfer recriwtio. O'r ddau Aelod Anweithredol sy'n weddill, mae un yn gwasanaethu ei dymor cyntaf yn y rôl tan 15 Mawrth 2023 ac mae'r llall yn gwasanaethu ei ail dymor, tan 15 Mawrth 2023 hefyd.

**9.** Gwahoddwyd yr holl Aelodau Anweithredol sy'n gwasanaethu i ystyried gwneud cais am rôl Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru am weddill eu tymor presennol yn y swydd.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5

[2] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 6

## Y broses recriwtio

**10.** Hysbysebodd y Pwyllgor ar gyfer ymgeiswyr a oedd â diddordeb mewn gwneud cais i fod yn Aelodau Anweithredol ar wefan Senedd Cymru. Rhoddwyd hysbysebion ychwanegol yn y mannau a ganlyn:

- Sunday Times
- Guardian
- Public Finance
- Women on Boards
- Fish 4 Jobs
- Golwg

**11.** Cyhoeddwyd yr hysbyseb ar 7 Mai 2020, gyda dyddiad cau o 1 Mehefin 2020. Cafwyd 49 o geisiadau gan 18 o fenywod a 31 o ddynion. Cyfwelwyd â 10 ymgeisydd wedi hynny, gan gynnwys yr Aelod Anweithredol presennol sy'n gymwys i wasanaethu ail dymor.

**12.** Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 29 a 30 Mehefin a 2 Gorffennaf 2020. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr roi cyflwyniad byr a chawsant eu holi ar y meini prawf a nodwyd yn y disgrifiad swydd. Dyma aelodau'r panel:

- Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
- Mike Usher, Arweinydd Sector – Iechyd a Llywodraeth Ganolog, Archwilio Cymru
- Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol, Senedd Cymru

### Ymgynghoriad ar gydnabyddiaeth ariannol a thelerau penodi

**13.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Senedd Cymru ymgynghori â "pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus" cyn pennu trefniadau cydnabyddiaeth a thelerau penodi eraill ar gyfer yr Aelodau Anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd)[3] Yn unol â hynny, ymgynghorodd y Pwyllgor Cyllid â Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol, yn yr Uned Penodiadau

[3] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 9(1).

Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru, a ymatebodd ar 25 Mehefin 2020[4], gan roi manylion trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer penodiadau cyhoeddus tebyg Llywodraeth Cymru a chadarnhau nad oedd ganddo farn bendant sylweddol am delerau ac amodau arfaethedig y Pwyllgor.

**14.** At hynny, yn unol â gofynion y Ddeddf[5], cyn pennu'r telerau ac amodau ar gyfer penodi'r Cadeirydd, ymgynghorodd y Pwyllgor â'r Prif Weinidog. Nododd y Prif Weinidog fod cydnabyddiaeth y Cadeirydd yn uwch na'r uchafswm cyfatebol a gynigir dan gynllun cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus, a nododd argymhelliad y Pwyllgor i gynnal yr un trefniadau cydnabyddiaeth â'r Cadeirydd presennol ar hyn o bryd.

**15.** Mae'r Pwyllgor wedi trafod ymatebion y Prif Weinidog a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, ond yn credu bod cydnabyddiaeth y rolau hyn yn gymesur â'r cyfrifoldeb a roddir i'r swyddi.

## Penodi Aelodau Anweithredol

**16.** Yn dilyn y broses recriwtio, dewiswyd tri ymgeisydd i ymgymryd â rôl Aelodau Anweithredol, am hyd at bedair blynedd.

**17.** Dewiswyd y tri ymgeisydd a ganlyn:

- Elinor Gwynn – Mae gan Ms Gwynn gefndir gwyddonol a chyfreithiol, ynghyd â phrofiad helaeth mewn materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Mae ganddi brofiad sylweddol o weithio yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae wedi bod mewn rolau ar lefel y Bwrdd yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

- Ian Rees – Mae Dr Rees yn arweinydd profiadol iawn ym maes addysg a hyfforddiant, gyda phrofiad sylweddol o weithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol ar draws y sector cyhoeddus. Mae wedi gwasanaethu fel aelod anweithredol ar fyrddau cyrff cyhoeddus yng Nghymru ers 2006, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

- Alison Gerrard – Ar hyn o bryd, mae Ms Gerrard yn gwasanaethu ei thymor cyntaf fel Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru ac yn cadeirio ei Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd. Mae ganddi 14

[4] Llythyr gan yr Is-adran Penodiadau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar y trefniadau tâl a thelerau ar gyfer penodi Aelodau Anweithredol, 25 Mehefin 2020

[5] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 7(2)

blynedd o brofiad ar lefel y Bwrdd, yn ogystal â phrofiad blaenorol ar lefel cyfarwyddwr, gan gynnwys profiad ym maes llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol yn y sector cyhoeddus. Mae gan Ms Gerrard brofiad helaeth yn gweithio yn y GIG yng Nghymru ac roedd yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Swyddfa Archwilio Cymru cyn iddi gael ei phenodi i Swyddfa Archwilio Cymru.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn penodi Elinor Gwynn yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Medi 2024.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn penodi Ian Rees yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 17 Hydref 2020 a 16 Hydref 2024.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn penodi Alison Gerrard, i wasanaethu ail dymor yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 30 Mehefin 2025.

# 3. Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

**18.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Senedd Cymru benodi'r Cadeirydd o blith yr Aelodau Anweithredol.[6] Rhaid i'r Pwyllgor, felly, wneud argymhelliad i Senedd Cymru ei gymeradwyo.[7]

**19.** Cafodd y Pwyllgor chwe chais ar gyfer rôl y Cadeirydd gan ddwy fenyw a phedwar dyn. Wedi hynny, dewiswyd pedwar ymgeisyddi gynnig cyfweliad iddynt.

**20.** Yn dilyn y broses recriwtio, mae'r Pwyllgor yn argymell Lindsay Foyster i'w phenodi'n Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (mae hanes gyrfa Ms Foyster wedi'i atodi i'r adroddiad hwn). Er y gellir penodi'r Cadeirydd am dymor hyd at bedair blynedd, mae Ms Foyster eisoes yn gwasanaethu ei hail dymor yn Aelod Anweithredol. Felly, bydd ei phenodiad fel Cadeirydd yn dod i ben pan ddaw ei hail dymor yn Aelod Anweithredol i ben ar 15 Mawrth 2023.

**21.** Yn unol â'r Ddeddf, mae'r Pwyllgor wedi ymgynghori â'r Prif Weinidog ynglŷn â phenodi'r Cadeirydd.[8] Ymatebodd y Prif Weinidog ar 25 Awst[9] ac ni fynegodd unrhyw wrthwynebiadau i'r ymgeisydd arfaethedig.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Senedd Cymru yn penodi Lindsay Foyster yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o blith yr Aelodau Anweithredol, rhwng 17 Hydref 2020 a 15 Mawrth 2023.

[6] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5

[7] Rheol Sefydlog 18.10(iv)

[8] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5(2)

[9] Llythyr gan y Prif Weinidog: Ymgynghori ynghylch penodi'r Cadeirydd, 25 Awst 2020

# Atodiad: Hanes Gyrfa – Lindsay Foyster

## 2016 – presennol - Ymgynghorydd Rheoli (hunangyflogedig)

Yn canolbwyntio ar ddatblygu rhagoriaeth ym maes llywodraethu. Yn adeiladu ar werthoedd ac egwyddorion sy'n dod i'r amlwg drwy ddull cynhwysol, gan gefnogi sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu trefniadau llywodraethu cadarn sy'n bodloni gofynion rheoliadol, yn dymuno mabwysiadu arferion gorau, ac yn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sefydliad.

## 2016 – presennol - Hyfforddwr Gweithredol (hunangyflogedig)

Yn rhoi hyfforddiant o safon i uwch swyddogion gweithredol, yn y trydydd sector yn bennaf, ac yn hwyluso sesiynau datblygu a hyfforddiant dwys undydd/preswyl i dimau rheoli.

## 2015 – presennol - Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, Swyddfa Archwilio Cymru (wedi'i hailbenodi hyd at 2023)

Yn ymgysylltu mewn modd cynhyrchiol ym mhob cyfarfod Bwrdd, ac ar hyn o bryd yn arwain gwaith i wella rhaglen waith y Bwrdd a'r trefniadau ar gyfer cynllunio cyfarfodydd. Fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, yn gweithredu'n rheolaidd fel rhywun i roi barn/cefnogaeth fentora i'r Cadeirydd wrth lywio Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru drwy faterion cymhleth, gan gynnwys rhaglen newid sylweddol ym meysydd digidol, cyfathrebu a ffyrdd o weithio. Mewnbwn strategol hyfedr i waith rheoli risg, rheoli perfformiad a rheoli ariannol, ynghyd â chyfraniad dylanwadol wrth lywio cyfeiriad strategol Swyddfa Archwilio Cymru. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol, yn llywio dull adfywiol a chydweithredol o ran Adnoddau Dynol strategol.

**Rolau penodol:**
Arweinydd Anweithredol Cydraddoldeb 2015-2017
Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2015-2017
Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol 2018-19 a Mai–Gorffennaf 2020
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol 2019–parhaus

## 1995-2014 - Cyfarwyddwr Mind Cymru, Mind

Cyfrifoldeb am reoli corfforaethol, gan gynnwys llywio a gweithredu strategaethau ac amcanion gwasanaeth corfforaethol. Gwaith rheoli ariannol ar gyfer yr holl adnoddau yng Nghymru ochr yn ochr â datblygu, gwasanaethu a chyflwyno

adroddiadau i Fwrdd Llywodraethu Cymru. Cynrychiolaeth allanol i'r cyfryngau, Llywodraeth Cymru, cyllidwyr a rhanddeiliaid pwysig eraill.

### 1991–1995 - Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl, Intervol

Datblygu dull strategol trydydd sector ar gyfer iechyd meddwl; cymorth effeithiol ar gyfer llywodraethu i sefydliadau trydydd sector unigol; cychwyn a chydlynu cyfarfodydd rhwydwaith gydag ystod eang o randdeiliaid. Gwaith arloesol i roi llais i ddefnyddwyr gwasanaeth trydydd sector mewn gwaith cynllunio ar y cyd, a chadeirio gweithgorau amlasiantaethol.

### 1986–1991 - Swyddog datblygu tai, Mind Caerdydd

Cymorth i denantiaid; datblygu prosiectau tai newydd; cynrychioli'r trydydd sector mewn fforymau cynllunio statudol perthnasol ar y cyd.